
Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â golygu deunydd sain i fodloni gofynion y cynhyrchiad.

Mae'n golygu asesu'r deunydd i benderfynu pa fath o ddulliau golygu y dylid eu defnyddio ac ymdrin ag anawsterau wrth wneud y gwaith golygu angenrheidiol. Mae'n ymwneud â dethol pwyntiau golygu priodol, gwneud penderfyniadau golygu sy'n dechnegol gywir, asesu deunydd gorffenedig sydd wedi'i olygu, a'u cwblhau erbyn y terfynau amser a roddwyd i chi. Mae'n bosibl y byddwch weithiau'n gweithio i derfynau amser tyn a than bwysau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Paratoi ar gyfergolygu

- P1 canfod y gofynion technegol, creadigol a masnachol mewn perthynas â golygu
- P2 asesu'r deunydd yn gywir i benderfynu ar y math owaith golygu sydd i'w wneud
- P3 esbonio goblygiadau recordio gyda thechnegau cywasgu â llai o ddata i'r deunydd gwreiddiol
- P4 esbonio'n glir i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau unrhyw anawsterau o ran cwblhau'r gwaith golygu arfaethedig ac awgrymu atebion addas

Gwneud gwaith golygu

Rhaid i chi allu:

- P5 trefnu traciau a deunyddiau mewn modd priodol
- P6 dethol pwyntiau golygu sy'n cynnig y potensial mwyaf ar gyfer bodloni gofynion y cleient neu'r cynhyrchiad, a chreu'r trosglwyddiad angenrheidiol
- P7 dethol pwyntiau golygu addas sy'n cyflawni'r hyd, rhythm, cyflymder, gwybodaeth a'r cefndir angenrheidiol; ac a fydd, os yn berthnasol, yn cefnogi'r lluniau
- P8 dewis arddull golygu sy'n briodol ar gyfer y deunydd
- P9 cadw unrhyw gydamseru angenrheidiol yn y gwaith golygu
- P10 dethol a marcio pwyntiau golygu yn gywir ac yn glir
- P11 defnyddio arddull golygu sy'n briodol i'r gofynion
- P12 gwneud penderfyniadau golygu sy'n dechnegol gywir, yn lân ac yn effeithiol yn artistig
- P13 cadarnhau bod y penderfyniadau golygu a wnaed yn bodloni gofynion y cleient neu'r cynhyrchiad
- P14 cwblhau'r gwaith golygu o fewn y terfynau amser a'r gyllideb
- P15 nodi unrhyw 'trims' a deunydd gwreiddiol heb ei labelu yn glir, a'u cadw er mwyn sicrhau y gellir eu hadfer os bydd angen
- P16 cadarnhau bod data golygu sy'n cael ei storio mewn modd anghyfnewidiol yn cael ei ddiweddarau
- P17 cadarnhau bod y systemau wrth gefn yn cael eu cadw, er mwyn gwarchod integreidd y sain a'r data
- P18 cadarnhau y caiff y deunydd gwreiddiol ei ddiogelu
- P19 cynhyrchu gwaith papur a labeli cywir a darllenadwy yn y fformat angenrheidiol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

- K1 gofynion ôl-gynhyrchu'r cleient neu'r tîm cynhyrchu
- K2 y deunydd i'w olygu, beth yw'r gofynion golygu a'r mathau o ddulliau golygu sy'n bosibl
- K3 ble i ddod o hyd i ddeunydd gwreiddiol
- K4 yr amserlen a'r gyllideb ar gyfer y gwaith golygu
- K5 y gofynion o ran dogfennaeth a fformat
- K6 unrhyw ofynion cydamseru a'u goblygiadau o ran y broses gynhyrchu
- K7 y goblygiadau ar gyfer golygu lle mae'r sain yn cefnogi llun
- K8 y meini prawf ar gyfer dethol pwyntiau golygu, a sut y cânt eu defnyddio i nodi pwynt golygu
- K9 y meini prawf ar gyfer asesu effeithiolrwydd technegol ac artistig y gwaith golygu
- K10 graddau'r anawsterau sy'n gysylltiedig â golygu, a sut i'w hadnabod a'u datrys
- K11 y meini prawf ar gyfer asesu effeithiolrwydd technegol ac artistig y pa dechnegau golygu sy'n briodol ar gyfer cyfryngau penodol
- K12 goblygiadau golygu distrywiol ac annistrywiol
- K13 egwyddorion ADR
- K14 mathau nodweddiadol o namau clywadwy mewn technolegau analog a digidol
- K15 fformatau a thechnegau lleihau data cyffredin
- K16 goblygiadau defnyddio ac ymdrin â thechnegau cywasgu â llai o ddata ar gyfer y gwaith golygu
- K17 goblygiadau defnyddio aml-drac, mono, stereo, neu aml-sianel i'r gwaith golygu
- K18 ffurf gerddorol a dull enwi sylfaenol yn cynnwys nodyn, curiad, bar a brawddeg
- K19 sut i reoli ac ategu sain a data
- K20 sut i gydymffurfio â rhestrau data golygu a chyfryngau gwreiddiol
- K21 sut i warchod metadata
- K22 sut i nodi 'trims' a deunyddiau gwreiddiol heb eu labelu, a sut i'w cadw'n ddiogel
- K23 pwysigrwydd gweithio'n ddiogel gyda sgriniau arddangos, a'r rheoliadau perthnasol

SKSPPS20W

Golygu sain

Datblygwyd gan	Skillset
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Medi 2010
Dyddiad adolygu a awgrymir	Medi 2012
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skillset
RCU gwreiddiol	S20
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi; Cyfryngau a chyfathrebu; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol y Cyfryngau
Cyfes/Set	Ôl-gynhyrchu
Geiriau Allweddol	Ôl-gynhyrchu, cleient, effeithiau gweledol, graffeg, sain, recordio, awyrgylch, gradd lliw, systemau, cyfarpar, technegol, cynnwys, creu'